# Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan

# Diogelwch Personol ac Atal Trosedd

**Mae cynnwys y llyfryn atebion i gefnogi athrawon hwn yn cefnogi unedau:**
Agweddau Cymdeithasol a Chyfreithiol ar Ddiogelwch Personol **Lefel 1 a Lefel 2**

# LLYFRYN ATEBION I GEFNOGI ATHRAWON

Dyma rai diffiniadau y bydd y disgyblion eu hangen er mwyn eu galluogi i ateb y cwestiynau:

**Diffiniad:** Dyma'r diffiniadau a gafwyd gan y Swyddog Cymuned Ysgol yr Heddlu

**Adnabod**: Dewiswch neu darganfyddwch yr atebion cywir

**Dweud**: Dewiswch yr wybodaeth berthnasol ac atebwch y cwestiwn yn eich geiriau eich hun

**Rhowch enghreifftiau**: Yn eich geiriau eich hun, rhowch enghraifft sy'n esbonio eich ateb i'r cwestiwn. Gall hyn fod yn ddigwyddiad neu gallwch hyd yn oed ddefnyddio llun.

**Disgrifio**: Defnyddiwch eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth i ateb y cwestiynau yn eich geiriau eich hun.

Dylech:


a) roi rhesymau i gefnogi eich ateb, er enghraifft, 'Mae pobl yn camddefnyddio cyffuriau oherwydd ……'
b) cynigwch eich syniadau eich hun neu atebion i broblemau.

| LO | Lefel | Cyfarwyddyd | Ateb |
|---|---|---|---|
| AC1. | Lefel ½ | Diffiniwch beth ydi uned o alcohol<br><br>*Defnyddiwch ddiffiniad y swyddog* | Un uned ydi 10ml o alcohol pur.<br><br>Fel lefel 1 gydag ychydig o wybodaeth ychwanegol fel yr isod:<br>Mae un uned o alcohol cyfwerth â:<br>• hanner peint o gwrw, lager neu seidr cryfder cyffredin (cryfder alcohol 3-4%);<br>• mesur bychan tafarn (25 ml) o wirod (cryfder alcohol 40%);<br>• mesur cyffredin tafarn (50 ml) o win cadarn megis sieri neu bort (cryfder alcohol 20%). |
| AC1.1 | Lefel 1<br><br><br>Lefel 2 | Nodwch faint o alcohol sydd mewn amrywiaeth o ddiodydd alcoholig.<br><br>Rhowch enghreifftiau o amrywiaeth o ddiodydd alcoholig a'u cryfder.<br><br>*Dylai'r disgyblion roi o leiaf 2 enghraifft o ddiodydd a'u cryfder. Gall disgyblion Lefel 1 ddefnyddio'r daflen i gefnogi gweithgaredd AC1.1. Dysgu am Alcohol i ateb y cwestiwn. Dylai disgyblion Lefel 2 ateb gan ddefnyddio brawddegau llawn.* | Enghreifftiau a roddir yn y wers ydi:<br>• Coke Cola 0%<br>• Siandi 1%<br>• Breezer 4%<br>• Strongbow 5.3%<br>• Gwin 12%<br>• Fodca 40%<br>• Neu opsiwn arall |
| AC1.2 | Lefel 1<br><br><br>Lefel 2 | Nodwch beth yw'r canllawiau o ran faint o alcohol ddylai dynion a merched yfed.<br><br>Amlinellwch beth yw'r canllawiau o ran faint o alcohol ddylai dynion a merched yfed. | • **Dynion** – ni ddylent yfed mwy na 21 uned o alcohol yr wythnos.<br>• Ni ddylai dynion yfed mwy na 4 uned mewn diwrnod.<br>• **Merched** – ni ddylent yfed mwy na 14 uned o alcohol yr wythnos . |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | *Dylai'r disgyblion restru o leiaf 4 canllaw: 2 ar gyfer dynion a 2 ar gyfer merched.* | • Ni ddylai merched yfed mwy na 3 uned mewn diwrnod.<br>• Dylai dynion a merched gael o leiaf 2 ddiwrnod yr wythnos lle nad ydynt yn yfed alcohol. |
| AC1.3 | Lefel 1<br><br>Lefel 2 | Rhowch enghreifftiau o ganlyniadau yfed alcohol.<br><br>Disgrifiwch ganlyniadau yfed alcohol.<br><br>*Dylai'r disgyblion restru o leiaf 3 canlyniad cyfreithiol a chymdeithasol.*<br>*Dylai'r disgyblion ddefnyddio eu geiriau eu hunain a brawddegau llawn i ateb.* | Atebion mewn perthynas â:<br>• Trosedd e.e. ymladd, yfed a gyrru, YG, treisio ar ddêt ayyb.<br>• Iechyd e.e. niwed i'ch iau, gwenwyniad alcohol, alcoholiaeth, damweiniau ac anafiadau, beichiogrwydd, heintiau a drosglwyddir yn rhywiol.<br>• Cyfeillgarwch<br>• Swyddi<br>• Teulu<br>e.e. Un canlyniad yfed alcohol ydi mynd i drwbwl gyda'r heddlu a chyflawni trosedd e.e. ymladd, yfed a gyrru, YG, treisio ar ddêt ayyb. |
| AC1.4 | Lefel 1<br><br>Lefel 2 | Nodwch sut gallwch leihau effeithiau yfed alcohol.<br><br>Disgrifiwch sut gallwch leihau effeithiau yfed alcohol.<br><br>*Dylai'r disgyblion roi o leiaf 3 enghraifft.*<br><br>*Ar gyfer Lefel 2*<br>*Dylai'r disgyblion ddefnyddio eu geiriau eu hunain a brawddegau llawn i ateb.* | Gall yr atebion gynnwys:<br>• Mynd allan yn hwyrach<br>• Yfed diodydd di-alcohol rhwng diodydd alcoholig<br>• Peidio â dechrau prynu rownd<br>• Bwyta rhywbeth<br>• Yfed ar eich cyflymdra eich hun<br>• Peidio â derbyn lifft gan ffrindiau sydd wedi bod yn yfed alcohol<br>• Peidio â gadael eich diod<br>• Cael rhai dyddiau lle nad ydych yn yfed alcohol<br>• Mynd adref gyda ffrindiau<br>• Trefnu lifft adref pan fyddwch wedi cael digon i'w yfed<br>• Dim ond mynd â'r arian y byddwch ei angen gyda chi<br>• Gwrthod diodydd ychwanegol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| AC2 | Lefel 1/2 | Diffiniwch beth ydi cyffur | Mae cyffur yn newid y ffordd mae'ch meddwl a'ch corff yn gweithio. |
| AC2 | Lefel 1/2 | Diffiniwch beth ydi Cyffur Newydd sy'n Ymddangos (NED) | • Sylweddau newydd ydi NEDau. Mae effeithiau nifer ohonynt yn debyg i gyffuriau anghyfreithlon ond maent yn beryglus oherwydd nid ydym yn gwybod llawer amdanynt.<br>• Nid yw rhai ohonynt yn cael eu rheoli gan Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau, 1971; ond mae eraill wedi cael eu profi ac wedi cael eu gwahardd. |
| AC2.1 | Lefel 1<br><br><br>Lefel 2 | Nodwch beryglon **posib** Cyffuriau Newydd sy'n Ymddangos.<br><br>Rhowch enghreifftiau o beryglon Cyffuriau Newydd sy'n Ymddangos.<br>*Dylai'r disgyblion roi o leiaf 3 enghraifft.*<br><br>*Ar gyfer Lefel 2*<br>*Dylai'r disgyblion ddefnyddio eu geiriau eu hunain a brawddegau llawn i ateb.* | Gall yr atebion gynnwys:<br>• Mae nifer o NEDau hefyd yn cynnwys sylweddau anghyfreithlon; sy'n golygu y gallwch gael eich cyhuddo o feddu ar sylwedd anghyfreithlon. Nid yw anwybodaeth yn esgus dros feddu ar sylwedd anghyfreithlon<br>• Nid yw'r wybodaeth sydd ar y rhyngrwyd am NEDau bob amser yn ddibynadwy.<br>• Yr unig beth sydd gan yr unigolion sy'n cynhyrchu'r cyffuriau hyn ddiddordeb ynddo ydi elw, nid eich lles chi.<br>• Mae nifer o'r cyffuriau hyn wedi cael eu labelu'n 'dim i'w defnyddio gan bobl' er mwyn i'r delwyr (gwerthwyr neu gyflenwyr) osgoi'r Gyfraith a chyfrifoldeb.<br>• Gall NEDau fod yn gryfach na chyffuriau anghyfreithlon gan eu bod yn aml yn fwy pur oherwydd maent yn rhad i'w cynhyrchu.<br>• Nid yw NEDau wedi cael eu profi'n iawn er mwyn gweld pa mor wenwynig ydynt. Nid oes ffordd o ddweud sut bydd NEDau yn eich effeithio.<br>• Nid ydym yn gwybod llawer am yr effeithiau tymor canolig |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | neu hirdymor.<br>• Ni ellir gwarantu beth yw cynnwys NEDau ac nid oes canllawiau ar gyfer eu cymryd.<br>• Mae eu cymryd yn risg mawr. |
| AC2.2 | Lefel 1<br><br>Lefel 2 | Nodwch resymau pam fod unigolion yn camddefnyddio cyffuriau.<br><br>Disgrifiwch pam fod unigolion yn camddefnyddio cyffuriau.<br><br>*Dylai disgyblion Lefel 1/2 roi o leiaf 3 enghraifft.*<br><br>*Ar gyfer Lefel 2:*<br>*Dylai'r disgyblion ddefnyddio eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth i ateb y cwestiynau yn eu geiriau eu hunain. Dylent:*<br>*a) roi rhesymau dros eu hatebion e.e. mae unigolion yn camddefnyddio cyffuriau oherwydd………*<br>b) *awgrymu eu syniadau eu hunain.* | Unrhyw rai o'r canlynol:<br>• Chwilfrydedd<br>• I deimlo'n dda<br>• I arbrofi<br>• Pwysau gan gyfoedion<br>• Dibyniaeth<br>• I anghofio<br>• I ddangos eu hunain<br>• I fod yn gymdeithasol<br>• Straen<br>• Anhapus<br>• Diflastod<br>• Neu atebion rhesymol eraill |
| AC2.3 | Lefel 1<br><br>Lefel 2 | Rhestrwch beth sy'n gyffur yn unol â Deddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971.<br><br>Nodwch pa gyffuriau sy'n perthyn i bob dosbarth yn unol â Deddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971.<br><br>*Dylai disgyblion Lefel 1/2 roi o leiaf 3 enghraifft.* | Dyma enghreifftiau:<br><br>• Dosbarth A – Cocên, Heroin, Madarch Hud, Ecstasi<br>• Dosbarth B – NRG-1, Canabis, Amffetamin<br>• Dosbarth C – Khat, Steroidau Anabolig, Cetamin, GHB<br>• Gall y dosbarth ymchwilio i enghreifftiau eraill. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | *Gall disgyblion Lefel 1 ddefnyddio'r daflen i gefnogi gweithgaredd AC2.3. Dysgu am Gyffuriau i ateb y cwestiwn.* | |
| AC2.4 | Lefel 1<br><br><br>Lefel 2 | Nodwch ganlyniadau cyfreithiol camddefnyddio sylweddau.<br><br>Disgrifiwch ganlyniadau cyfreithiol camddefnyddio sylweddau.<br><br>*Dylai disgyblion Lefel 1/2 roi o leiaf 2 ateb.*<br><br>*Ar gyfer Lefel 2.*<br>*Dylai'r disgyblion ddefnyddio eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth i ateb y cwestiynau yn eu geiriau eu hunain. Dylent:*<br>*a) roi rhesymau dros eu hatebion e.e. mae unigolion yn camddefnyddio cyffuriau oherwydd.........*<br>*b) awgrymu eu syniadau eu hunain.* | Y canlyniadau cyfreithiol ydi:<br><br>• Carchar<br>• Dirwy<br>• Atafaelu asedau<br><br> |
| AC2.5 | Lefel 1<br><br><br>Lefel 2 | Nodwch effaith camddefnyddio sylweddau ar unigolyn.<br><br>Disgrifiwch effaith camddefnyddio sylweddau ar unigolyn.<br><br>*Dylai disgyblion Lefel 1/2 roi o leiaf 3 enghraifft.* | Enghreifftiau:<br><br>• Iechyd e.e. gorddos, straen, organau'n methu, afiechyd, deiet gwael ayyb.<br><br>• Arian e.e. diffyg arian, dwyn ayyb<br><br>• Swyddi e.e. methu cael swydd, annibynadwy, colli'ch swydd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | *Ar gyfer Lefel 2*<br>*Dylai'r disgyblion ddefnyddio eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth i ateb y cwestiynau yn eu geiriau eu hunain. Dylent:*<br>*b) roi rhesymau dros eu hatebion e.e. mae unigolion yn camddefnyddio cyffuriau oherwydd………*<br>*b) awgrymu eu syniadau eu hunain.* | • Teithio e.e. methu teithio i ymweld â rhai gwledydd |
| AC3 | Lefel 1/2 | Diffiniwch beth ydi caniatâd rhywiol. | Pan fydd unigolyn sy'n 16 oed neu'n hŷn yn cytuno drwy ddewis i unrhyw fath o weithgaredd rhywiol ac mae ganddo/i y rhyddid a'r gallu i wneud y penderfyniad hwnnw. |
| AC3.1 | Lefel 1<br><br><br>Lefel 2 | Nodwch pa pryd all unigolyn ddim rhoi caniatâd rhywiol.<br><br>Rhowch enghreifftiau o ba bryd all unigolyn ddim rhoi caniatâd rhywiol.<br><br>*Dylai disgyblion Lefel 1/2 roi o leiaf 5 enghraifft.*<br><br>*Gall disgyblion Lefel 1 ddefnyddio'r daflen i gefnogi gweithgaredd AC3.1. Dysgu am Berthnasau Diogel i ateb y cwestiwn.*<br><br>*Ar gyfer Lefel 2*<br>*Dylai'r disgyblion ddefnyddio eu geiriau eu hunain a brawddegau llawn i ateb.* | Enghreifftiau o ba bryd all unigolyn ddim rhoi caniatâd rhywiol:<br><br>• Anhawster dysgu<br>• Wedi meddwi<br>• Anymwybodol<br>• Cysgu<br>• Dan 16 oed<br>• Gorfodaeth<br>• Anabledd meddyliol neu gorfforol<br>• Wedi cymryd cyffuriau |
| AC3.2 | Lefel 1 | Nodwch ganlyniadau cyfreithiol torri'r Gyfraith mewn perthynas â chaniatâd rhywiol. | Y canlyniadau ydi: |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Lefel 2 | Disgrifiwch ganlyniadau cyfreithiol torri'r Gyfraith mewn perthynas â chaniatâd rhywiol.<br><br>*Dylai disgyblion Lefel 1/2 nodi o leiaf 3 canlyniad cyfreithiol*<br><br>*Ar gyfer Lefel 2*<br>*Dylai'r disgyblion ddefnyddio eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth i ateb y cwestiynau yn eu geiriau eu hunain. Dylent:*<br>*a) roi rhesymau dros eu hatebion e.e. mae unigolion yn camddefnyddio cyffuriau oherwydd……….*<br>*b) awgrymu eu syniadau eu hunain.* | • Dedfryd o garchar<br>• Gorfod cofrestru fel troseddwr rhyw<br>• Meddu ar gofnod troseddol fyddai'n effeithio ar eich siawns o gael swydd ac o deithio<br>• Effeithiau cymdeithasol – colli teulu a ffrindiau |
| AC4 | Lefel 1/2 | Diffiniwch beth ydi camfanteisio rhywiol | Camfanteisio'n rhywiol ar blant ydi pan fydd unigolyn yn cymryd mantais o, yn paratoi ac yn rheoli unigolyn ifanc sydd dan 18 oed at bwrpas rhywiol. |
| AC4.1 | Lefel 1<br><br><br>Lefel 2 | Nodwch amrywiaeth o rybuddion sy'n gysylltiedig â chamfanteisio rhywiol.<br><br>Disgrifiwch amrywiaeth o rybuddion sy'n gysylltiedig â cham-fanteisio rhywiol.<br><br>*Dylai disgyblion Lefel 1/2 nodi o leiaf 2 ateb.*<br><br>*Gall disgyblion Lefel 1 ddefnyddio'r daflen i gefnogi gweithgaredd AC4.1. Dysgu am Beryglon Camfanteisio Rhywiol i ateb y cwestiwn.* | Gall y rhybuddion gynnwys:<br>• Cael eich annog i roi manylion personol<br>• Cael eich annog i anfon lluniau<br>• Dieithryn yn cysylltu â chi ar-lein. (proses gyfeillio yn arwain at baratoi)<br>• Negeseuon amhroffesiynol<br>• Dim rheolaeth dros y lluniau oherwydd ni arwyddwyd contract<br>• Cyflymder ymatebion gan yr "asiantaeth"<br>• Llawer o weniaith |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | *Ar gyfer Lefel 2*<br>*Dylai'r disgyblion ddefnyddio eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth i ateb y cwestiynau yn eu geiriau eu hunain. Dylent:*<br>*a) roi rhesymau dros eu hatebion e.e. mae unigolion yn camddefnyddio cyffuriau oherwydd……….*<br>*b) awgrymu eu syniadau eu hunain.* | • Gofyn i chi fynd i dŷ'r dyn<br>• Mynd i'r tŷ ar eich pen eich hun<br>• Oedolion yn annog Lucy i yfed alcohol<br>• Dyn yn rhoi ei fraich o amgylch Lucy<br>• Llawer o oedolion gwrywaidd yn y tŷ<br>• Gwahodd Lucy i gyfarfod dynion o "asiantaethau" eraill yn y tŷ |
| AC4.2 | Lefel 1<br><br><br>Lefel 2 | Rhowch enghreifftiau o sut gallwch gadw'n ddiogel mewn perthynas â chamfanteisio rhywiol.<br><br>Rhowch enghreifftiau o sut gallwch gadw'n ddiogel mewn perthynas â chamfanteisio rhywiol.<br><br>*Dylai disgyblion Lefel 1/2 nodi o leiaf 2 ateb.*<br><br>*Ar gyfer Lefel 1*<br>*Dylai'r disgyblion ddefnyddio eu geiriau eu hunain a brawddegau llawn i ateb.*<br><br>*Ar gyfer Lefel 2*<br>*Dylai'r disgyblion ddefnyddio eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth i ateb y cwestiynau yn eu geiriau eu hunain. Dylent:*<br>*a) roi rhesymau dros eu hatebion e.e. mae unigolion yn camddefnyddio cyffuriau oherwydd……….* | <u>Siarad â dieithryn ar-lein</u>:<br>• Peidiwch â derbyn dieithriaid fel ffrindiau.<br>• Peidiwch ag anfon llun i ddieithryn<br>• Trafodwch y trefniadau gyda'ch mam<br><u>Mynd i dŷ ar eich pen eich hun:</u><br>• Trafodwch gyswllt pellach â'r dyn gyda'ch mam<br>• Peidiwch â chytuno i gyfarfod y dyn yn ei gartref<br>• Peidiwch â mynd i gyfarfod y dyn ar eich pen eich hun.<br><u>Mynd i barti:</u><br>• Peidiwch â mynd i'r parti<br>• Peidiwch â mynd i'r parti ar eich pen eich hun<br>• Peidiwch â dweud celwydd wrth eich mam. Dylech ddweud lle'r ydych yn bwriadu mynd.<br>• Ailystyried y penderfyniad ar ôl sylweddoli bod y mwyafrif sydd yn y parti yn oedolion gwrywaidd.<br>• Peidio â derbyn alcohol yn y parti.<br>• Gwneud esgusodion a gadael ar ôl cael cynnig cyffuriau.<br>• Tecsio neu ffonio eich mam i ddod i'ch nôl. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | b) *awgrymu eu syniadau eu hunain.* | <u>Mynd i fyny grisiau yn y tŷ:</u><br>• Peidiwch â chytuno i fynd i fyny grisiau.<br>• Mynnwch gyfarfod yr unigolyn i lawr grisiau.<br>• Gwnewch esgus i adael.<br>• Peidiwch â derbyn diod nad ydych wedi'i weld yn cael ei arllwys.<br>• Tecsio neu ffonio eich mam i ddod i'ch nôl. |
| AC5.1 | Lefel 1<br><br>Lefel 2 | Nodwch beth fyddai'n gallu achosi gwrthdrawiadau traffig<br><br>Disgrifiwch beth fyddai'n gallu achosi gwrthdrawiadau traffig.<br><br>*Dylai disgyblion Lefel 1/2 adnabod y pump angheuol*<br><br>*Ar gyfer Lefel 2*<br>*Dylai'r disgyblion ddefnyddio eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth i ateb y cwestiynau yn eu geiriau eu hunain. Dylent:*<br>a) *roi rhesymau dros eu hatebion e.e. mae unigolion yn camddefnyddio cyffuriau oherwydd………*<br>b) *awgrymu eu syniadau eu hunain.* | Y pump angheuol ydi:<br><br>1. yfed a gyrru a chymryd cyffuriau a gyrru<br>2. goryrru<br>3. peidio â gwisgo gwregys diogelwch<br>4. defnyddio ffôn symudol<br>5. gyrru'n ddiofal neu'n beryglus |
| AC5.2 | Lefel 1<br><br>Lefel 2 | Nodwch ganlyniadau gyrru'n anniogel.<br><br>Disgrifiwch ganlyniadau gyrru'n anniogel.<br><br>*Dylai disgyblion Lefel 1/2 adnabod o leiaf 3 canlyniad* | Gall gyrru'n anniogel arwain at:<br><br>• Anaf difrifol neu farwolaeth<br>• Pwyntiau ar eich trwydded |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | *Ar gyfer Lefel 2*<br>*Dylai'r disgyblion ddefnyddio eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth i ateb y cwestiynau yn eu geiriau eu hunain. Dylent:*<br>*a) roi rhesymau dros eu hatebion e.e. mae unigolion yn camddefnyddio cyffuriau oherwydd……….*<br>*b) awgrymu eu syniadau eu hunain.* | • Dirwy neu ddedfryd o garchar<br>• Canlyniadau emosiynol megis euogrwydd neu gywilydd<br>• Effaith ar y teulu<br>• Effaith ar y gymuned leol<br>• Cost adnoddau gwasanaethau cyhoeddus |
| AC5.3 | Lefel 1<br><br>Lefel 2 | Nodwch beth yw'r gyfraith o ran yr isod.<br><br>Disgrifiwch beth yw'r gyfraith o ran yr isod.<br><br>*Ar gyfer Lefel 2*<br>*Dylai'r disgyblion ddefnyddio eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth i ateb y cwestiynau yn eu geiriau eu hunain. Dylent:*<br>*a) roi rhesymau dros eu hatebion e.e. mae unigolion yn camddefnyddio cyffuriau oherwydd……….*<br>*b) awgrymu eu syniadau eu hunain.* | Y pump angheuol ydi:<br><u>Gwregysau Diogelwch</u><br>• Pan fydd person ifanc yn 14 oed ei gyfrifoldeb ef ydi sicrhau ei fod yn gwisgo gwregys diogelwch yn y sedd flaen a'r sedd gefn oherwydd …………….<br>• Cyfrifoldeb y gyrrwr ydyw os ydi'r unigolyn dan 14 oed<br>• Mae'n rhaid i blant sy'n fyrrach na 135cm gael sedd godi<br>• Y gosb benodol am beidio â gwisgo gwregys diogelwch ydi £60<br><br><u>Ffonau symudol</u><br>• Mae yn erbyn y gyfraith i ddefnyddio ffôn symudol wrth yrru oherwydd ……………<br>• Os cewch eich dal yn defnyddio ffôn symudol wrth yrru yna gallwch gael 3 pwynt ar eich trwydded a dirwy benodol o £60. Os cewch ddamwain wrth ddefnyddio ffôn symudol yna gallwch gael eich erlyn am yrru'n beryglus. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | <u>Cyffuriau ac alcohol</u><br>• Nid oes cyfyngiad diogel oherwydd………………….<br>• Gallwch gael dirwy o hyd at £3,000 a gallwch gael eich gwahardd rhag gyrru am hyd at 5 mlynedd.<br><br><u>Cyflymder</u><br>• Mae arwydd sydd â chylch coch o'i amgylch yn orfodol; mae'n golygu<br>• Os byddwch yn anwybyddu'r rheol yna gallwch gael 3 pwynt ar eich trwydded a dirwy cosb benodol o £60<br>• Gallwch gael eich gwahardd rhag gyrru yn awtomatig os cewch eich dal yn gyrru 100mya neu'n gyflymach |
| AC6.1 | Lefel 1/2 | Nodwch pa asiantaethau fyddai'n gallu rhoi cefnogaeth ac arweiniad i chi ar y canlynol<br>• Alcohol<br>• Cyffuriau<br>• Perthnasau<br>• Camfanteisio rhywiol<br>• Gyrru'n ddiogel<br><br>*Bydd angen o leiaf un enghraifft ar gyfer pob un o'r uchod.* | • Dan 24/7, Drinkline, Grwpiau Teulu Al-Anon, Alcohol Concern<br>• Dan 24/7,<br>• Llinell Gymorth Camdriniaeth yn y Cartref a Thrais Rhywiol Cymru Gyfan, Childline, gwasanaethau iechyd rhywiol lleol, canolfannau SARC<br>• Llinell Gymorth Camdriniaeth yn y Cartref a Thrais Rhywiol Cymru Gyfan, Childline, gwasanaethau iechyd rhywiol lleol, canolfannau SARC, CEOP (Canolfan Camfanteisio ar Blant a'u Hamddiffyn Ar-lein )<br>• RAC, AA, Diogelwch Ffyrdd Cymru, ROSPA |